Minutes / Cofnodion
Cross Party Autism Group / Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth
Mehefin 26 June 2019
National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1 WELCOME / CROESO
Croesawodd Mark Isherwood AC, Cadeirydd y Grŵp, bawb i gyfarfod olaf tymor presennol y Cynulliad, a fynychwyd hefyd gan Hefin David AC, Swyddog y Grŵp. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Gruffydd AC, Helen Mary Jones AC ac Adam Price AC.

2 MINUTES OF THE LAST MEETING AND MATTERS ARISING / COFNODION A MATERION YN CODI
Cytunwyd bod y cofnodion yn gyfrif cywir o'r cyfarfod blaenorol.

3 AUTISM AWARENESS IN THE WORKPLACE / YMWYBYDDIAETH O AWTISTIAETH YN Y GWEITHLE
Siaradodd Joe Allen am ganllaw 'Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth yn y Gweithle' Cyngres Undebau Llafur Cymru â'r rhai a oedd yn bresennol. Mae gan y canllaw, y gofynnodd gynrychiolwyr undebau llafur amdano, dri phrif nod: addysgu cynrychiolwyr undebau llafur i'w helpu i gefnogi cydweithwyr awtistig yn well; darparu gwybodaeth gyffredinol am rai o'r agweddau cyfreithiol perthnasol ar gyflogaeth; a darparu arweiniad ymarferol i gyflogwyr er mwyn iddynt allu cefnogi staff awtistig yn well.

Mae'r canllaw yn cynnwys enghreifftiau lle mae cyflogwyr a chydweithwyr sy'n deall awtistiaeth yn dda wedi cael canlyniadau cadarnhaol i weithwyr awtistig. Mae hefyd yn trafod yr effaith y gall diffyg dealltwriaeth ei chael ar ragolygon cyflogaeth gofalwyr.

Nod TUC Cymru yw hyrwyddo'r ddogfen ymhellach a darparu hyfforddiant i gynrychiolwyr undebau llafur. Cynigiodd Sara Harvey o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i gynnwys y canllaw ar wefan ASDinfoWales. Mae Joe yn croesawu sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r canllaw, a gofynnodd un o'r bobl a oedd yn bresennol am sicrwydd ei fod yn gynhwysfawr o ran cyflyrau niwroddatblygiadol ehangach.

Dosbarthodd Joe gopïau o'r canllawiau yn y cyfarfod. Gellir cael copïau o'r rhain ar-lein.

4 ALCOHOL USE AND AUTISM / DEFNYDD O ALCOHOL AC AWTISTIAETH
Trafododd Andrew Misell, o Alcohol Change UK Cymru, a Mark Brosnan, o Brifysgol Caerfaddon, eu gwaith parhaus yn archwilio'r cysylltiadau rhwng defnyddio alcohol ac awtistiaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar sicrhau bod gwasanaethau sy'n cefnogi yfwyr dibynnol yn gyfeillgar i awtistiaeth. Mae rhai astudiaethau yn awgrymu bod pobl awtistig mewn perygl uwch o gael eu niweidio gan alcohol. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod gan bobl awtistig brofiadau negyddol o ran cael mynediad at gymorth yn y maes hwn o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth. Dywedodd Andrew a Mark yn gryno y gall addasiadau rhesymol i sut y mae cymorth yn cael ei ddarparu i bobl awtistig arwain at ganlyniadau llawer gwell. Eu nod bellach yw canolbwyntio ar weithio gyda gwasanaethau cymorth alcohol i rannu eu gwybodaeth a darparu hyfforddiant.

Trafodir y rhaglen waith hon yn fanylach yng nghynhadledd nesaf Alcohol Change UK Cymru yn Wrecsam ym mis Medi.

Trafododd rhai o'r bobl a oedd yn bresennol brofiadau personol ac awgrymwyd y gallai'r mater hwn waethygu os nad yw oedolion awtistig yn cael diagnosis. Soniodd Mark Isherwood AC am ymgyrch Yfed Doeth Heneiddio'n Dda. Er bod yr ymgyrch hon yn canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â'r nifer gynyddol o bobl hŷn sy'n yfed alcohol, gall rhai achosion posibl y cynnydd hwn, fel ynysu cymdeithasol a gorbryder, fod yn berthnasol i bobl awtistig hefyd.

5 AUTISM AND THE CHINESE MINORITY / AWTISTIAETH A'R LLEIAFRIF TSIEINEAIDD
Dechreuodd Hazel Lim, o'r Grŵp Cymorth Awtistiaeth Tsieineaidd, drwy rannu ei phrofiadau personol fel rhiant i blentyn awtistig sy'n ceisio am gymorth gan y gymuned Tsieineaidd. Soniodd Hazel am y stigma sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth yn y gymuned Tsieineaidd, a siaradodd am yr adeg pan ofynnwyd iddi adael yr ystafell ar ôl i grŵp Tsieineaidd ofyn a oedd unrhyw un o'u plant yn awtistig.

Awgrymodd Hazel fod diwylliant yn arbennig o anodd i'w newid ac, mewn rhai achosion, bod gwerth negyddol yn rhan annatod o iaith ei hun – gellir dehongli awtistiaeth fel cyfieithiad llythrennol o 'afiechyd hunan-gaeëdig'. Mae hyn yn gwneud y tabŵ canfyddedig yn anodd ei oresgyn.

Roedd Hazel wedi sicrhau cyllid i lunio canllaw awtistiaeth Tsieineaidd-Saesneg cwbl ddwyieithog. Mae'n gobeithio cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater hwn a gwella dealltwriaeth o awtistiaeth yn y gymuned Tsieineaidd. Dosbarthodd Hazel gopïau o'r canllawiau yn y cyfarfod. Gellir cael copïau o'r rhain ar-lein.

6 ANY OTHER BUSINESS / UNRHYW FATER ARALL
Rhoddodd Mark Isherwood AC wybod i'r grŵp am ymgynghoriadau agored Llywodraeth Cymru ar ganllawiau gofal iechyd parhaus y GIG a gofal parhaus i Blant neu Bobl Ifanc. Disgwylir hefyd i'r adolygiad blynyddol o strategaeth awtistiaeth Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

Dywedodd Sara Harvey wrth y grŵp y bydd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol hefyd yn cyhoeddi adroddiad yr wythnos hon a gofynnodd iddo gael ei ddosbarthu.

Mynegodd unigolyn a oedd yn bresennol bryderon ynghylch y canllawiau y mae byrddau arholi yn eu rhoi i oruchwylwyr arholiadau mewn perthynas â rhoi cymorth i ddisgyblion awtistig. Dywedodd Sara Harvey y bydd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn ymchwilio i hyn ac yn rhoi sylw iddo.

Cododd Denise Inger o Snap Cymru y mater o sut y gallai newidiadau i'r system anghenion dysgu ychwanegol effeithio ar nodi a diagnosis cynnar o awtistiaeth.

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth ym Mhrestatyn ar 18 Hydref.